**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Moeseg a Safonau** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **13 Hydref 2022** |
| **Teitl:** | **Blaenraglen Waith Moeseg a Safonau 2022/23** |
| **Diben yr adroddiad:** | **Adolygu rhaglen waith bresennol y Pwyllgor** |

**Beth mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn ei wneud?**
Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn nodi swyddogaethau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau fel a ganlyn:-

- hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Gynghorwyr
- cynorthwyo'r Cynghorwyr i gadw at y Cod Ymddygiad
- cynghori'r Cyngor ynglŷn â mabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad
- monitro gweithredu'r Cod Ymddygiad, a
- cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad.

Gall y Pwyllgor Moeseg a Safonau hefyd roi gollyngiadau, sy'n caniatáu i Gynghorwyr sydd â buddiant mewn eitem benodol o fusnes y Cyngor barhau i gymryd rhan yn y busnes hwnnw.

Efallai y caiff adroddiadau ymchwilio y mae'r Ombwdsmon neu Swyddog Monitro'r Cyngor wedi'u paratoi ynghylch honiadau bod y Cod Ymddygiad wedi ei dorri eu cyfeirio at y Pwyllgor Moeseg a Safonau fel y gellir penderfynu yn eu cylch.

Mae gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau hefyd y cyfrifoldebau uchod mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chymuned yng Ngheredigion.

Mae enghreifftiau o'r math o waith y mae Pwyllgor Moeseg a Safonau Ceredigion yn ei wneud yn cynnwys:

- cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu deunydd hyfforddi ar y Cod, gan gynnwys siart llif sy'n rhoi crynodeb o'r prif ddarpariaethau
- mynd i'r sesiynau hyfforddi ynghylch y Cod ar gyfer y Cyngor Sir a'r Cynghorau Cymuned a chymryd rhan ynddynt
- mynd i gyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgorau i arsylwi ar y trafodion
- cyflwyno gweithdrefnau sy'n caniatáu i Gynghorwyr fynychu cyfarfodydd Pwyllgor i gyflwyno cais am ollyngiad yn bersonol
- rhoi cyngor i Gynghorwyr ynglŷn â cheisiadau am ollyngiad

**Y Flaenraglen Waith**
Bydd Blaenraglen Waith yn eitem sefydlog ar bob un o agendâu'r Pwyllgor. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor adolygu a diweddaru rhaglen waith y Pwyllgor.

Mae Blaenraglen Waith ddrafft ynghlwm i'w hystyried (Atodiad 1)

**Argymhellion:**

1) ystyried, adolygu a diweddaru'r Flaenraglen Waith ddrafft gyfredol. **(Atodiad 1)**

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Lisa Evans |
| **Swydd:** | Swyddog Craffu a Safonau |
| **Dyddiad yr adroddiad:** | 23 Medi 2022 |
| **Acronymau:** | |

<u>Blaenraglen Waith Moeseg a Safonau 2022/23</u>

| Dyddiad | Eitem |
|---|---|
| 25 Mai | Ystyried ceisiadau am ollyngiad gan y Cynghorwyr canlynol:<br><br>Diweddariad ynghylch materion Panel Dyfarnu Cymru<br><br>Diweddariad ar faterion yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus<br><br>Hyfforddiant<br><br>Diweddariad ar Ymdrin â chwynion a gyfeiriwyd at y Pwyllgor Moeseg a Safonau & gweithdrefnau gwrandawiadau<br><br>Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau 2021/22<br><br>Cynllunio olyniaeth - aelod lleyg<br><br>Diweddariad - recriwtio Cynghorwyr Cyngor Tref/Cymuned<br><br>Penderfyniadau'r Ombwdsmon ynghylch y Côd Ymddygiad<br><br>Y Swyddog Monitro i ddarparu adroddiad chwarterol ar dueddiadau cwynion, a lefel eu difrifoldeb |
| 16 Hydref 2022 | Ystyried ceisiadau am ollyngiad gan y Cynghorwyr canlynol:<br><br>Diweddariad ynghylch materion Panel Dyfarnu Cymru<br><br>Diweddariad ar faterion yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus<br><br>Hyfforddiant<br><br>Rheoliadau newydd o ran Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru<br><br>Aelodaeth Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru/ recriwtio Cynghorwyr Cyngor Tref/Cymuned/ recriwtio aelod annibynnol<br><br>Adroddiad chwarterol ar dueddiadau cwynion<br><br>Cofnod o'r Camau Gweithredu |
| 25 Ionawr 2023 | Ystyried ceisiadau am ollyngiad gan y Cynghorwyr canlynol: |

| | |
|---|---|
| | Diweddariad ynghylch materion Panel Dyfarnu Cymru<br><br>Diweddariad ar faterion yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus<br><br>Hyfforddiant<br><br>Gwahodd arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol<br><br>Adolygu'r datganiad o weledigaeth<br><br>Hunanwerthuso (ar sail disgrifiadau rôl CLILC/WLGA?)<br><br>Adroddiad chwarterol ar dueddiadau cwynion<br><br>Cofnod o'r Camau Gweithredu |
| 19 Ebrill 2023 | Ystyried ceisiadau am ollyngiad gan y Cynghorwyr canlynol:<br><br>Diweddariad ynghylch materion Panel Dyfarnu Cymru<br><br>Diweddariad ar faterion yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus<br><br>Hyfforddiant<br><br>Diweddariad ar recriwtio aelod annibynnol<br><br>Penodi Cadeirydd/ Is-gadeirydd<br><br>Adroddiad chwarterol ar dueddiadau cwynion<br><br>Cofnod o'r Camau Gweithredu |